CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEHEFIN 20, 2017

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Mehefin 20, 2017 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Llion Rh. Williams (Cadeirydd), Peredur Jenkins, Mordaf Roberts, Geraint Evans, Emlyn Roberts a Huw A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol a hefyd Swyddogion o Parc Cenedlaethol Eryri sef Ms Iona Thomas a Mr Aled Lloyd, Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth.

Cafodd y ddau wahoddiad i'r cyfarfod i drafod ceisiadau cynllunio Brithgwm ac i roi gwybodaeth gyffredinol ar geisiadau cynllunio. Cafwyd gwybodaeth helaeth a gwerthfawr gan y swyddogion. Enghreifftiau o wybodaeth cafwyd oedd: mae 'Building Regulations' yn ar wahân i geisiadau cynllunio, mae hawl i berchennog tir gwella ffordd/trac, mae hawl i berchennog ail gychwyn adeiladu heb ganiatad cynllunio os mae wedi bod yn segur am dros 10 mlynedd, cafwyd barn gyfreithiol ar geisiadau Brithgwm, mae tŷ sydd yn llety gwyliau i fod yn wag am 28 diwrnod yn y flwyddyn. Cafwyd trafodaeth ar Reol 106, mae hawl i ni roi barn ar gais cynllunio wedi'r rheol 21 diwrnod ond i ni roi gwybod i'r Parc, a bydd Polisi y Parc yn cael ei adolygu.

2. Ymddiheuriadau: Rhun Prys Jones, Gerallt Griffith.

3. Datgan diddordeb. Roedd Geraint Evans yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 7.a.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 16, 2017

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 16, 2017

Eitem 8.ii. Llythyr (17/5/2017) oddi wrth Baylles W.H. Jackson-Gee, perchennog Coed Brithgwm, yn rhoi gwybod ei fod yn dymuno cyfarfod ni i drafod ei geisiadau cynllunio yn Coed Brithgwm.

Eitem 8.ii. Llythyr (18/5/2017) yn rhoi gwybod nid ydym wedi rhoi penderfyniad ar y ceisiadau a bod camddealltwriaeth wedi digwydd. Mae cais NP5/54/439A wedi ei wrthod a bod cais NP5/54/440A wedi ei gefnogi ond gyda newidiadau i'r cynllun. Os mae gennym sylwadau ar y ceisiadau maent eu hangen 19/5/2017.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys 'Model Brotocol Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned'.

Penderfynwyd mabwysiadu'r ddogfen

b. Llythyr (16/05/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn holi os gennym ddiddordeb mewn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

c. Llythyr (18/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod ini ddarparu cofnodion a phapurau eraill, i'r archwiliad allanol, yn yr iaith mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio.

ch. Llythyr (23/5/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar Mehefin 21 am 7.00. Bydd y cyfarfod yn cynnwys Cyfarfod Blynyddol. Bydd Heddwas yn bresennol i sôn am droseddu yng nghefn gwald. Amgáu mae Agenda -Cyfarfod Blynyddol, Agenda - Cyfarfod Cyffredinol, a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2017.

d. Llythyr (24.5.2017) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoi manylion tŷ 5 Aber Eiddion, Rhyd y Main sydd ar gael i unigolyn neu deulu.

dd. Llythyr (22/5/2017) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud:

1. Arwisgo ffordd Coed Mwsoglog, Bryncoedifor.
2. Torri gwair pob ffordd yn Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain.

e. Llythyr (1/6/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhestru cyrsiau sydd ar gael ganddynt. Y cyrsiau lleol Cymraeg yw:

Cod ymddygiad (28/6/2017), Dealltwriaeth y gyfraith (13/9/2017), Cyfarfod y Cyngor (18/10/2017). Cyrsiau yn Canolfan Hen Blas, Bala.

Gynefino i gynghorwyr newydd (21/6/2017), Cod ymddygiad (26/7/2017). Cyrsiau yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau.

Cost hyfforddiant yw £40 yr aelod. Cynhelir y sesiwn am 6.30yh.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/211E. Adeiladu adeilad amaethyddol. Gwanas, Cross Foxes, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. (5/6/2017).

ii. NP5/54/453A. Codi estyniadau deulawr a unllawr, a gosod ffenestri to (bwriad diwygiedig). Cadwgan, Abergeirw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

Cais cynllunio NP5/74/450. Cynllun trydan dŵr arfaethedig i gynhyrchu hyd at 34KW yn cynnwys argae, pibell danddaearol, adeilad tyrbin, all-lif, cysylltiad grid tanddaearol, a thrac mynediad dros dro, Nant Helyg, Abergeirw, Dolgellau.

Tynnwyd y cais yn ôl ar 08/06/2017.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2017: £1,136.39.

b. Balans yn y banc ar 29 Mai, 2017: £5,953.10.

c. Archwiliwyd dogfennau'r Cyngor gan Mr. J. D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, ac anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO LLP, Archwilwyr Allanol, ar 5/6/2017.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Nid oed adroddiad.

10. Unrhyw fater arall

a. O'r ymchwiliad gan BDO mae angen nodi yn y Cofnodion ein bod yn cytuno gydag ein polisiau, sef:

a. Cod Ymddygiad
b. Rheolau Sefydlog
c. Rheoliadau Cyllidol
ch. Polisi Iaith

Penderfynwyd bod y dogfennau yn gywir a chafodd eu cymeradwyo.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen gwella hwyneb y ffordd Caerdefaid, Rhydymain oherwydd tyllau.

c. Mae Peredur Jenkins am wneud ymoliadau gyda Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol ynglŷn â binniau halen yn y gymuned.

Llofnod: Dyddiad: